Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyllidebu hawliau plant: Canllaw i gyrff cyhoeddus (ac eraill) yng Nghymru

www.comisiynyddplant.cymru

## Rhestr o'r Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **Dadansoddiad CHP** | Dadansoddiad Cyllideb Hawliau Plant |
| **AEHP** | Asesiad Effaith ar Hawliau Plant |
| **BILl** | Bwrdd Iechyd Lleol |
| **BGC** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **GCR** | Grant Cynnal Refeniw |
| **BPRh** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **CCUHP** | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |

## Termau a ddefnyddir

**Yn y canllaw hwn mae**:

- 'Plant' yn cyfeirio at bobl 0-17 oed yn unol â'r diffiniad yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 1).
- 'Corff cyhoeddus' (gan gynnwys y lluosog) yn cyfeirio at bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth Cymru.
- 'Cyllidebu cyhoeddus' yn cyfeirio at gyllidebu gan gyrff cyhoeddus.
- 'Pwyllgor y CU' yn cyfeirio at Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

## Defnyddio'r canllaw hwn

Mae modd darllen y canllaw hwn o glawr i glawr, neu gall defnyddwyr fynd at dudalen y Cynnwys a defnyddio'r is-benawdau i ganfod yr wybodaeth sy'n fwyaf perthnasol i'w gwaith neu'r maes maen nhw'n holi yn ei gylch. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y canllaw hwn yn gywir ac wedi'i ddiweddaru, ni ddylid dibynnu arno fel ffynhonnell gyfreithiol, a dylai defnyddwyr droi at ymarferydd awdurdodedig i gael cyngor cyfreithiol.


**Comisiynydd Plant Cymru**
Children's Commissioner for Wales

Dr Rhian Croke a'r Athro Simon Hoffman
**Arsyllfa Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol**
Paratowyd ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru
2026



# Cynnwys

**Adran 1:** CYFLWYNIAD ........................... 04

**Adran 2:** CYLLIDEBU HAWLIAU PLANT A PHAM MAE'N BWYSIG ............................... 06

**Adran 3:** DEALL PROSESAU CYLLIDEB AWDURDODAU CYHOEDDUS – Y LLYWODRAETH GENEDLAETHOL ............. 13

**Adran 4:** CYNNAL DADANSODDIAD O'R GYLLIDEB HAWLIAU PLANT – CANLLAW CAM WRTH GAM I GYRFF CYHOEDDUS ..... 21

**Section 5:** CYLLIDEBU CYFRANOGOL ........................ 27

Adran 1:

# CYFLWYNIAD





**Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth a chyngor i gyrff cyhoeddus a gweithwyr proffesiynol sy'n ceisio gwneud cyrff cyhoeddus yn atebol, gyda ffocws ar Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n rhan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau), y mae gofyn eu bod yn cyflwyno gwasanaethau sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant.**

Ffocws y canllaw yw hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru. Mae'r canllaw hwn yn defnyddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i wireddu'r hawliau a nodir yn CCUHP trwy waith cyrff cyhoeddus.

Gallwch ddysgu mwy am Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant mewn canllaw a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru: 'Y Ffordd Gywir'.

Adran 2:

# CYLLIDEBU HAWLIAU PLANT A PHAM MAE'N BWYSIG



**Mae'r rhan hon o'r canllaw yn amlinellu ystyr y term 'cyllidebu hawliau plant' a pham mae'n bwysig.**



## Beth yw cyllidebu hawliau plant?

Mae cyllidebu hawliau plant yn ffordd o edrych yn fanwl ar y cyllidebau a bennwyd gan gyrff cyhoeddus (cyllidebu cyhoeddus) i weld beth mae hynny'n ei ddatgelu am weithredu hawliau plant.

Trwy archwilio'r elfennau sy'n rhan o gyllidebu cyhoeddus ochr yn ochr â gwybodaeth am ddeilliannau a pherfformiad, mae cyllidebu hawliau plant yn helpu i sefydlu darlun manwl o sut mae hawliau plant – a hawliau unigol – yn cael eu rhoi ar waith, ac i ba raddau. Mae hynny'n golygu bod modd nodi ymyriad penodol a newidiadau sy'n angenrheidiol i gyflymu cyflawniad hawliau penodol a gwella deilliannau.

Mae cyllidebu hawliau plant yn golygu edrych ar yr arian mae cyrff cyhoeddus yn ei wario ar blant i wireddu eu hawliau.

Mae'r gwaith hwnnw'n galw am nodi:

- Beth mae cyrff cyhoeddus yn ei ddyrannu ar gyfer polisïau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n effeithio ar blant, a monitro eu gweithrediad.
- Sut mae gwariant ar blant wedi newid dros amser ac a yw hynny'n amlygu tuedd gadarnhaol, negyddol neu anghyson.
- Sut mae cyrff cyhoeddus yn bwriadu cyflwyno gwasanaethau i blant yn y dyfodol, a nodi pa newidiadau sy'n ymarferol ac yn ddymunol i hybu hawliau plant.

# Pam mae cyllidebu hawliau plant yn bwysig?

Mae cyllidebu hawliau plant yn bwysig am nifer o resymau.

Mae dadansoddi gwariant cyhoeddus ar blant fel mater o drefn yn offeryn grymus ar gyfer deall a monitro beth mae cyrff cyhoeddus a'u partneriaid yn ei wneud i hybu hawliau a gwella lles plant.

Mae angen ystyried gwybodaeth am wariant cyhoeddus ar blant ochr yn ochr â pholisïau, strategaethau a gwybodaeth am ddeilliannau'r rhain i blant. Mae angen mwy o dryloywder i wella dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng bwriad polisi, gwariant cyhoeddus (a ddyrannwyd ac a wariwyd) a gwell deilliannau i blant.

Mae'r dull presennol o lunio cyllidebau yng Nghymru, ac yn wir ar draws y Deyrnas Unedig, yn golygu ei fod yn her canfod beth yn union sy'n cael ei wario ar blant ac ar grwpiau penodol o blant difreintiedig neu fregus.

Fodd bynnag, mae'n bwysig deall cyfrannau'r arian sy'n cael ei ddyrannu a'i wario ar blant (ac ar wahanol grwpiau o blant), ac a yw hynny'n cynrychioli 'mwyafswm o'r adnoddau sydd ar gael' (gofyniad o dan CCUHP, Erthygl 4); monitro sut mae dyraniadau'n newid dros amser ac a yw'r arian a ddyrannwyd yn cyrraedd y rhai y bwriadwyd i bolisïau neu fentrau fod o fudd iddynt; ac a yw'n cael yr effaith a ddymunir.

Mae cyllidebu hawliau plant o fudd i gyrff cyhoeddus trwy eu galluogi i ddangos y cysylltiad rhwng hawliau, bwriadau polisi, dyraniadau cyllidebol a deilliannau i blant.

Mae'r broses o nodi gwariant ar blant yn codi proffil materion plant, a hefyd blant bregus a rhai sydd ar y cyrion, a phlant sy'n byw mewn tlodi.

Mae cydymffurfio â CCUHP yn galw am ddadansoddi cyllideb fel mater o drefn, a chyllidebu cyfranogol er mwyn dangos bod cyfran gyffredinol cyllidebau a ddyrannir ar gyfer rhaglenni yn ddigonol i ddiogelu a hybu hawliau plant (gweler isod: 'Y gofyniad i weithredu CCUHP').

Mae cyllidebu cyfranogol yn elfen bwysig o gyllidebu hawliau plant ac yn galluogi dinasyddion (gan gynnwys plant) i gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch sut mae cyrff cyhoeddus yn dyrannu'r adnoddau sydd ar gael, a monitro a gwerthuso'r defnydd o'r adnoddau hynny (gweler Adran 5).

Mae cyllidebu cyfranogol yn cynyddu tryloywder, atebolrwydd, dealltwriaeth a chynhwysiant cymdeithasol yng ngwaith cyrff cyhoeddus. Mae cyllidebu cyfranogol gyda phlant yn caniatáu iddyn nhw ddysgu am y broses o bennu cyllideb; cyflwyno eu blaenoriaethau ar gyfer gwella; a dylanwadu, trwy drafod a chyd-drafod, ar rai o'r dyraniadau cyllideb mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud.



# CCUHP

CCUHP yw'r cytuniad hawliau dynol rhyngwladol a gadarnhawyd ehangaf, a hon yw'r ddogfen hawliau dynol bwysicaf i blant.

Mae wedi'i ymgorffori i'n deddfwriaeth yng Nghymru trwy'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu holl swyddogaethau, gan gynnwys penderfyniadau cyllidebol. Mae dyletswydd sylw dyledus i CCUHP hefyd yn berthnasol i rai awdurdodau cyhoeddus ym meysydd gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg, yn sgîl yr estyniadau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae 'Ffordd Gywir' y Comisiynydd Plant, Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer cyrff cyhoeddus, hefyd wedi cael ei mabwysiadu gan lawer o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn galw am roi sylw manwl i hawliau plant wrth i gyrff cyhoeddus ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

# Y gofyniad i roi CCUHP ar waith

Mae Erthygl 4 o CCUHP yn gofyn bod Gwladwriaethau yn cyflwyno'r holl fesurau deddfwriaethol, gweinyddol ac eraill priodol i weithredu'r hawliau a gydnabyddir yn CCUHP.

Yng nghyswllt hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, dylai Gwladwriaethau ddefnyddio 'mwyafswm o'r adnoddau sydd ar gael iddynt' i weithredu hawliau plant.

Mewn canllaw a gyhoeddwyd yn 2003, y cyfeirir ato fel Sylw Cyffredinol Rhif 5 ar Fesurau Cyffredinol Gweithredu CCUHP, mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (Pwyllgor y CU) yn nodi ystod eang o fesurau sy'n angenrheidiol i hybu gallu pob plentyn i fwynhau eu holl hawliau o dan CCUHP. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys deddfwriaeth, sefydlu cyrff cydlynu a monitro, casglu data cynhwysfawr, asesiadau effaith ar hawliau plant, cynyddu ymwybyddiaeth, a hyfforddiant a dadansoddi gwariant cyhoeddus ar blant fel mater o drefn.

Mae gofyn bod gwladwriaethau'n rhoi'r holl fesurau posibl ar waith i wireddu'r hawliau hyn, gan roi sylw arbennig i'r grwpiau mwyaf difreintiedig.

Er mai cyfrifoldeb y Wladwraeth (h.y. Llywodraeth y Deyrnas Unedig) yw'r rhwymedigaethau hyn yn y pen draw, mae Pwyllgor y CU yn gwbl glir bod gofyn i holl ganghennau'r Wladwriaeth gyfrannu at weithredu CCUHP trwy ymarfer y pwerau sydd ar gael iddyn nhw (Sylw Cyffredinol Rhif 5). Felly, lle mae Llywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa i roi blaenoriaeth i wariant ar blant, dylen nhw wneud hynny.

Mewn sylw cyffredinol arall, Sylw Cyffredinol Rhif 19 (2016) ar Gyllidebu Cyhoeddus er Gwireddu Hawliau Plant (erth. 4), mae Pwyllgor y CU yn argymell Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) er mwyn nodi effaith penderfyniadau cyllidebu ar bob plentyn, yn enwedig plant mewn sefyllfaoedd bregus sydd o bosib ag anghenion arbennig, a allai olygu bod arnynt angen cyfran anghymesur o wariant i wireddu eu hawliau.

Dylai AEHP fod yn rhan o bob cam o'r broses gyllidebu, a mynd law yn llaw ag ymdrechion monitro a gwerthuso eraill.

O ganlyniad, p'un a yw cyrff cyhoeddus yn:

- ceisio rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth bennu cyllidebau (e.e. yng nghyd-destun swyddogaethau Gweinidogol, gofal cymdeithasol neu ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol),

neu yn

- ceisio mabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant wrth wneud penderfyniadau cyllidebol, dylen nhw ddangos yn eglur a thryloyw pa gyfran o wariant sy'n cael ei wario ar blant, a dangos bod 'mwyafswm o'r adnoddau sydd ar gael' wedi cael ei ddyrannu i gyflawni hawliau o dan CCUHP.

Er mwyn cefnogi'r dull gweithredu hwn, dylid defnyddio AEHP i sicrhau bod cyllidebau'n cynnal gweithredu hawliau plant, yn hytrach na'u tanseilio.

# Egwyddorion cyffredinol CCUHP

Ar sail Sylw Cyffredinol Rhif 5, wrth fynd ati i ddadansoddi'r gyllideb, dylai cyrff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth briodol yr egwyddorion trosfwaol a geir yn CCUHP, sef:

- peidio â gwahaniaethu yn erbyn neb (Erthygl 2);
- lles pennaf y plentyn (Erthygl 3);
- goroesi a datblygu (Erthygl 6);
- cyfranogiad (Erthygl 12).

Ceir rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion hyn yn Sylw Cyffredinol Rhif 5. Rydym wedi rhoi crynodeb isod, gan ganolbwyntio ar berthnasedd pob egwyddor o safbwynt cyllidebu cyhoeddus.

## Erthygl 2 o CCUHP peidio â gwahaniaethu yn erbyn neb

Mae Erthygl 2 o CCUHP yn gofyn bod Gwladwriaethau, ac felly cyrff cyhoeddus, yn 'parchu a sicrhau'r' hawliau a geir yn CCUHP i bob plentyn, heb wahaniaethu yn erbyn neb ohonynt.

Mae hyn yn gofyn bod yr awdurdodau perthnasol yn nodi plant unigol a grwpiau o blant y gallai eu hawliau alw am fesurau arbennig. Er enghraifft, trwy gasglu data wedi'i ddidoli er mwyn medru canfod gwahaniaethu neu wahaniaethu posibl, a chymryd camau i liniaru neu ddileu hynny.

Yng nghyd-destun cyllidebu cyhoeddus, rhaid ystyried unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar blant fel grŵp, neu grwpiau penodol o blant, er enghraifft rhai â nodweddion gwarchodedig, wrth ddyrannu cyllideb.

Lle nodir effeithiau gwahaniaethol (gwirioneddol neu bosibl), rhaid ystyried dyraniadau cyllidebol amgen er mwyn lliniaru neu ddileu'r effeithiau gwahaniaethol hynny.

### Erthygl 3 o CCUHP lles pennaf y plentyn

Mae Erthygl 3 o CCUHP yn gofyn bod Gwladwriaethau, ac felly cyrff cyhoeddus, yn trin lles pennaf y plentyn fel prif ystyriaeth wrth gymryd camau sy'n effeithio ar y plentyn.

Yng nghyd-destun cyllidebu cyhoeddus ac ar sail canllawiau Pwyllgor y CU ar les pennaf (Sylw cyffredinol Rhif 14, 2013) bydd hyn yn galw am ddefnyddio AEHP i nodi effaith unrhyw ddyraniad cyllidebol arfaethedig ar blant a'u gallu i fwynhau eu hawliau, a monitro parhaus er mwyn gwerthuso union effaith y gweithredu.

### Erthygl 6 o CCUHP goroesi a datblygu

Mae Erthygl 6 yn ymwneud â hawl cynhenid plentyn i fywyd a'r rhwymedigaeth ar bartïon Gwladol i sicrhau goroesiad a datblygiad y plentyn hyd eithaf eu gallu. Mae Pwyllgor y CU, yn Sylw Cyffredinol Rhif 5, yn disgwyl i Wladwriaethau ddehongli "datblygiad" yn yr ystyr ehangaf fel cysyniad cyfannol, sy'n cwmpasu datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol, seicolegol a chymdeithasol y plentyn. Dylai mesurau gweithredu geisio sicrhau'r datblygiad gorau posibl i bob plentyn.

O ganlyniad, wrth roi sylw dyledus i Erthygl 6 yng nghyswllt drafftio cyllideb gyhoeddus, rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos sut byddant yn gwario 'mwyafswm o'r adnoddau sydd ar gael' i sicrhau'r datblygiad gorau posibl i blant ac ar draws gwahanol gyfnodau datblygiadol plentyndod yng Nghymru.

### Erthygl 12 o CCUHP cyfranogiad

Mae Erthygl 12 (1) yn ymwneud â hawl y plentyn i fynegi ei f/barn yn rhydd ar "bob mater sy'n effeithio ar y plentyn" gyda "phwys dyledus yn cael ei roi i'r farn honno yn ôl oed ac aeddfedrwydd y plentyn". Mae'r egwyddor hon yn amlygu rôl y plentyn fel cyfranogydd gweithredol wrth hybu, diogelu a monitro ei hawliau, ac mae yr un mor berthnasol i'r holl fesurau a fabwysiadir gan Wladwriaethau a chyrff cyhoeddus i roi CCUHP ar waith.

Mae Sylw Cyffredinol Rhif 19 yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad ystyrlon plant trwy fecanweithiau sy'n eu cefnogi, gan gynnwys ymgynghori â phlant sy'n wynebu anawsterau o ran cael eu clywed, megis plant sydd mewn sefyllfaoedd bregus.

O ganlyniad, wrth roi sylw dyledus i Erthygl 12, rhaid i gorff cyhoeddus ddangos sut mae barn plant (gan gynnwys plant bregus y mae'r gyllideb yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw) wedi cael ei chymryd i ystyriaeth, a sut y rhoddwyd pwys dyledus arni yng nghyswllt cyllidebu cyhoeddus.

## Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU

Yn ogystal â'r Sylwadau Cyffredinol mae Pwyllgor y CU yn achlysurol yn archwilio perfformiad y Deyrnas Unedig yng nghyswllt gweithredu CCUHP (mae hynny'n cynnwys archwilio sut mae'r llywodraethau datganoledig yn cyfrannu at ei weithredu), ac yn cyflwyno argymhellion mewn adroddiad a elwir yn 'Sylwadau Terfynol'. Cyflwynwyd yr argymhellion diweddaraf i'r Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yn 2016 a 2023.

I grynhoi, yn 2016 argymhellion Pwyllgor y CU oedd:

- Dyrannu mwyafswm o'r adnoddau oedd ar gael i weithredu hawliau plant, gyda ffocws arbennig ar ddileu tlodi plant a lleihau anghydraddoldebau o fewn ac ar draws pob awdurdodaeth.
- Defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth ymhelaethu ar gyllidebau, trwy ddefnyddio system dracio ar gyfer dyrannu a defnyddio adnoddau i blant ar draws y gyllideb;

- Sicrhau cyllidebu tryloyw a chyfranogol trwy ddeialog gyhoeddus, gan gynnwys gyda phlant;
- Diffinio llinellau cyllidebol ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig neu fregus lle gallai fod angen mesurau cymdeithasol ategol, a sicrhau bod y llinellau cyllidebol hynny yn cael eu diogelu hyd yn oed mewn dirwasgiad economaidd;
- Cynnal AEHP yn rheolaidd ar brosesau a deilliannau penderfyniadau cyllidebol ac economaidd, gan gynnwys mesurau cyni, mewn meysydd sydd â chysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â hawliau plant;
- Sefydlu mecanweithiau i fonitro a gwerthuso digonolrwydd, effeithiolrwydd a thegwch dosbarthiad yr adnoddau a ddyrannwyd i weithredu CCUHP.

I grynhoi, yn 2023 cyfeiriodd Pwyllgor y CU at bwysigrwydd hawliau plant yn yr holl benderfyniadau cyllidebol, gan argymell:

- AHP gorfodol i bob deddfwriaeth a pholisi perthnasol i blant yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.
- Ymgorffori dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn y broses gyllidebu.
- Rhoi system dracio ar waith wrth ddyrannu, defnyddio a monitro adnoddau i blant, gyda golwg ar ddileu anghysondebau a sicrhau tegwch, ac asesu sut mae buddsoddiadau ym mhob sector yn gweithio er lles pennaf plant;
- Cyflwyno dyraniadau cyllidebol ar gyfer plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig a sicrhau nad yw mesurau cyni yn effeithio ar blant;
- Mewn sefyllfaoedd o argyfwng economaidd, sicrhau na chyflwynir mesurau sy'n gam yn ôl heb roi sylw priodol i hawliau plant.
- Sicrhau cyllidebu tryloyw, cyfranogol y gall cymdeithas sifil, y cyhoedd a phlant gyfranogi'n effeithiol ynddo.


## Casgliad

Yng nghyd-destun cyllidebu cyhoeddus, mae CCUHP a Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn dangos y canlynol:

- Camau a gymerwyd i sicrhau cydlyniad polisïau economaidd a chymdeithasol.
- Pa gyfran o'r gyllideb a neilltuwyd i'w wario ar blant, gan gynnwys iechyd, lles, addysg etc ar lefel ganolog, ranbarthol a lleol.
- Tueddiadau cyllideb dros amser.
- Camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol cymwys a chyrff cyhoeddus eraill yn cael eu llywio gan egwyddorion cyffredinol wrth wneud penderfyniadau cyllidebol, a gwerthuso'r flaenoriaeth a roddir i blant wrth iddyn nhw lunio polisi.
- Y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau pontio'r gwahaniaethau rhwng ac o fewn gwahanol ranbarthau a grwpiau o blant yng nghyswllt darparu gwasanaethau.
- Y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau bod plant, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i'r grwpiau mwyaf difreintiedig, yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau niweidiol polisïau economaidd, gan gynnwys lleihau dyraniadau cyllidebol.

# Adran 3:
# DEALL PROSESAU CYLLIDEB AWDURDODAU CYHOEDDUS – Y LLYWODRAETH GENEDLAETHOL

Mae'r adran hon o gymorth i ddeall prosesau cyllidebu cyhoeddus yng Nghymru. Mae cyllidebu hawliau plant yn golygu monitro cyllidebau cyhoeddus a sicrhau gwariant digonol i gefnogi gwireddu hawliau plant o dan CCUHP a gwella deilliannau i'r plant mwyaf difreintiedig.



Rhaid deall y broses o bennu cyllideb i sicrhau y pennir cyllidebau sy'n cyflawni hawliau plant, a gall yr amseru fod yn hollbwysig. Mae'r adran hon yn cyflwyno prosesau pennu cyllidebau cyhoeddus, gyda ffocws ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol yng Nghymru.

## Beth yw cyllidebu cyhoeddus?

Symiau cyfyngedig o arian sydd gan gyrff cyhoeddus i ddiwallu'r holl anghenion a dymuniadau ger eu bron, ac mae hynny'n golygu bod rhaid iddyn nhw wneud dewisiadau a phenderfynu pa anghenion sy'n fwy pwysig neu'n fwy brys nag eraill. Mae rhaid iddyn nhw gynllunio faint gallan nhw ei wario yn erbyn faint o incwm sydd ar gael iddyn nhw dros gyfnod penodol.

Mae cyllidebau cyhoeddus yn gynlluniau ar gyfer dyrannu'r incwm disgwyliedig yn erbyn y gwariant disgwyliedig yn ystod blwyddyn ariannol. Wrth gyflawni'r dasg hon, mae'n bwysig cadw mewn cof bod cyrff cyhoeddus yn cyllidebu ar ran pobl, gan gynnwys plant.

### Proses pennu cyllideb y llywodraeth

I grynhoi:

- Llunio'r gyllideb, y cyfnod cynllunio, yw'r adeg pan fydd llywodraeth (Cymru neu leol) yn nodi faint o arian mae'n disgwyl fydd ar gael iddi yn y flwyddyn sy'n dod ac yn llunio cynlluniau ar gyfer ei wario.
- Dod â'r gyllideb i rym yw'r cyfnod pan fydd y corff cyhoeddus yn cyflwyno'i gynlluniau i gynrychiolwyr etholedig (y Senedd neu'r Cyngor). Bydd y cynrychiolwyr hynny'n archwilio ac yn trafod y gyllideb arfaethedig ac yn penderfynu a ddylid ei chymeradwyo. Yna caiff y gyllideb ei hawdurdodi (gyda neu heb newidiadau).
- Cyflawni'r gyllideb yw'r cyfnod gweithredu, pryd y caiff adnoddau eu dosbarthu i lefelau perthnasol y llywodraeth ac i'r adrannau, yn unol â'r gyllideb awdurdodedig. Bydd adrannau'n gweithredu cynlluniau'r gyllideb trwy ddarparu seilwaith, trefnu a rheoli rhaglenni, a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r cyfnod hwn hefyd yn cynnwys cofnodi ac adrodd am yr union wariant.
- Archwilio'r gyllideb yw'r cyfnod gwerthuso, sy'n berthnasol wedi i'r gyllideb gael ei gweithredu. Mae'n edrych ar sut gwariwyd yr arian mewn gwirionedd. Rhoddir cyfrif am yr holl ddyraniadau a wnaed yn y gyllideb a'u hasesu o ran eu hallbynnau a'u deilliannau.



# Rhagor am broses gyllidebu Llywodraeth Cymru

Mae proses gyllidebu Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r fframwaith uchod ac yn weithdrefn strwythuredig y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i benderfynu sut i ddyrannu cyllid cyhoeddus ar draws amrywiol sectorau, gwasanaethau a rhaglenni. Caiff y broses hon ei ffurfio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a hefyd gan y cyd-destun ariannol a ddarperir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n cyflwyno cyllid i Gymru.

Llywodraethir y broses gyllidebu yng Nghymru gan fframwaith cyllid a chyllidebol Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys sawl cam, megis ymgynghori, craffu, cymeradwyo, a'r gweithredu terfynol.

Isod ceir trosolwg byr o'r camau ym mhroses gyllidebu Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy Fformwla Barnett, ochr yn ochr â refeniw yn sgîl datganoli trethi'n rhannol, megis Cyfraddau Treth Incwm Cymru a'r dreth trafodion tir ddatganoledig. Y cyllid hwn sy'n penderfynu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

Cyn cyhoeddi'r gyllideb yn ffurfiol, mae Llywodraeth Cymru yn:

- Rhagweld yr incwm o grantiau'r Deyrnas Unedig a threthi.
- Nodi blaenoriaethau (e.e., iechyd, addysg, tai).
- Ymgynghori â rhanddeiliaid megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a grwpiau busnes ynghylch anghenion ariannu a heriau.

Paratoir cyllideb ddrafft, yn amlinellu'r dyraniadau ariannu ar draws adrannau. Bydd Cabinet Cymru yn adolygu ac yn addasu'r drafft ar sail blaenoriaethau polisi a nodau ariannol.

Cyhoeddir y gyllideb ddrafft am 4-6 wythnos, fel bod cyfle i randdeiliaid roi adborth. Gall Llywodraeth Cymru addasu'r gyllideb ar sail y mewnbwn hwn.

Bydd y Senedd yn craffu ar y gyllideb ddrafft:

- Bydd pwyllgorau'n adolygu'r dyraniadau ac yn holi'r Gweinidogion.
- Bydd modd cynnig gwelliannau, er mai Llywodraeth Cymru fydd â'r gair olaf.
- Caiff y gyllideb ddrafft ei thrafod a bydd yn destun pleidlais mewn sesiwn lawn o'r Senedd.

Os caiff ei chymeradwyo gan y Senedd, daw'r drafft yn gyllideb derfynol ar gyfer y flwyddyn.

Ar ôl ei chymeradwyo:

- Dyrannir yr arian i'r adrannau.
- Caiff cynlluniau gwariant eu cyflwyno a'u monitro.
- Bydd tracio perfformiad yn sicrhau bod cyllid yn cael ei wario'n effeithiol.

Os bydd costau annisgwyl yn codi, gall Llywodraeth Cymru gyflwyno cyllideb ategol i addasu'r dyraniadau neu ofyn am gyllid ychwanegol.

# Hawliau plant a phroses gyllidebu Llywodraeth Cymru

Ar lefel y llywodraeth, mae Cymru wedi ymrwymo i hawliau dynol fel fframwaith ar gyfer polisi cyhoeddus, ac i hawliau plant fel sylfaen waelodol ar gyfer pob polisi cyhoeddus sy'n cael effaith ar blant. Fel y nodwyd ar y cychwyn, gwnaed CCUHP yn rhan o Gyfraith Cymru, gan greu dyletswydd gyfreithiol i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyledus' i Ran 1 o CCUHP ac erthyglau penodedig o brotocolau dewisol CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n golygu bod rhaid rhoi ystyriaeth briodol i holl erthyglau CCUHP pan fydd Gweinidogion yn ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Bydd hynny'n cynnwys: llunio polisi, cyflwyno deddfwriaeth, a gwneud penderfyniadau cyllidebol.

I'w helpu i roi sylw dyledus i hawliau plant, mae Gweinidogion Cymru yn cynnal AEHP (a gyflwynwyd o dan Gynllun Hawliau Plant) i asesu effaith penderfyniadau polisi ar hawliau plant. Nid yw AEHP yn orfodol, ond dyma'r prif offeryn ar gyfer cyflawni dyletswyddau Gweinidogol mewn perthynas â hawliau plant.

Fel rhan o AEHP, rhaid rhoi ystyriaeth i ymdrin ag unrhyw effaith negyddol a geir ar hawliau plant gan unrhyw gynnig o ran cyfraith neu bolisi neu benderfyniad cyllidebol, lliniaru'r effaith honno, a pha gamau gellir eu cymryd i wella gallu plant i gyrchu eu hawliau.

Cynhelir AEHP fel rhan o broses Asesu Effaith Integredig Llywodraeth Cymru. Dylid cyhoeddi pob AEHP ar wefan Llywodraeth Cymru i hybu tryloywder. Os na luniwyd AEHP fel rhan o Asesiad Effaith Integredig, rhaid i swyddogion gofnodi pam na wnaed hynny.

# Rhagor am broses gyllidebu llywodraeth leol

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian i awdurdodau lleol yng Nghymru trwy broses sy'n cael ei gyrru'n bennaf gan Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru (GCR), sef rhan o'r setliad ariannol blynyddol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau lleol.

Isod ceir trosolwg cryno o'r camau ym mhroses gyllidebu'r awdurdod lleol.

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyllid awdurdodau lleol, a'r brif ffynhonnell i gynghorau yw'r Grant Cynnal Refeniw (GCR).

Mae'r GCR yn grant cyffredinol i awdurdodau lleol ei ddefnyddio ar draws gwasanaethau. Llywodraeth Cymru sy'n pennu dyraniad pob awdurdod lleol, fel arfer trwy'r Adroddiad Ariannol Llywodraeth Leol.

Yn ogystal â'r GCR, mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau penodol ar gyfer meysydd megis:

- **Addysg:** Ar gyfer ysgolion ac anghenion addysgol.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol:** Ar gyfer amddiffyn plant, gofal i oedolion, etc.
- **Tai:** Ar gyfer datblygu ac atal digartrefedd.
- **Trafnidiaeth:** Ar gyfer trafnidiaeth a seilwaith lleol.

Cyn cadarnhau'r gyllideb derfynol, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ag awdurdodau lleol i gasglu adborth a gwneud addasiadau o bosibl.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dyrannu cyllid ar gyfer prosiectau penodol, megis mentrau cyfalaf neu raglenni economaidd rhanbarthol, ac nid yw hynny'n rhan o'r GCR.

Unwaith mae'r cyllid wedi'i bennu, mae awdurdodau lleol yn ei ddyrannu i adrannau.

# Hawliau plant a phroses gyllidebu llywodraeth leol

Mae'r gofyniad bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn alinio'u cyllidebau â CCUHP yn rhan o fframwaith o gyfreithiau a pholisïau yng Nghymru a luniwyd i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys prosesau cyllidebol.

Rhaid i awdurdodau lleol ystyried effaith bosibl eu cyllidebau ar blant, ymgysylltu â phlant mewn ymgyngoriadau, a sicrhau bod yr adnoddau a ddyrannwyd yn hybu hawliau plant. Mae ymgynghori â phlant yn ofynnol o dan Adran 12 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ac fel y nodwyd uchod, mae sylw dyledus i CCUHP yn ofynnol mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau gofal cymdeithasol a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

# Deall proses gyllidebu'r Bwrdd Iechyd Lleol

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i Fyrddau Iechyd yng Nghymru trwy broses sy'n cynnwys Grant Bloc Iechyd Cymru, sef rhan o gyllideb gyffredinol y GIG yng Nghymru. Caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu i saith Bwrdd Iechyd y GIG a'r Ymddiriedolaethau GIG a'r awdurdodau iechyd arbennig (megis gwasanaethau ambiwlans a iechyd cyhoeddus). Caiff Byrddau Iechyd, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau iechyd arbennig eu hariannu'n flynyddol, ond mae ble a sut maent yn derbyn eu cyllid refeniw yn amrywio yn ôl y sefydliad (ceir rhagor o wybodaeth yma).

Isod ceir trosolwg byr o'r camau ym mhroses gyllidebu'r Byrddau Iechyd.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran sylweddol o'r gyllideb hon i Fyrddau Iechyd er mwyn rheoli gwasanaethau gofal iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid wedi'i dargedu ar gyfer mentrau, gan gynnwys:

- **Gwasanaethau iechyd meddwl:** Cyllidebau penodol ar gyfer gofal iechyd meddwl.
- **Iechyd cyhoeddus:** Cyllid ar gyfer rhaglenni ataliol, megis ymgyrchoedd brechu neu roi'r gorau i smygu.
- **Gofal brys:** Cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys neu wasanaethau ambiwlans.
- **Datblygu'r gweithlu iechyd:** Ar gyfer hyfforddiant a recriwtio mewn meysydd lle mae prinder.
- **Technoleg a seilwaith:** Cyllid ar gyfer iechyd digidol ac uwchraddio cyfleusterau.

Mae rhannau penodol o'r gyllideb iechyd wedi'u neilltuo, sy'n golygu bod rhaid eu gwario ar fentrau penodol (e.e. iechyd meddwl neu driniaeth canser), gan sicrhau bod y blaenoriaethau hynny'n cael eu diogelu.

Caiff y gyllideb iechyd ei thrafod a'i chymeradwyo gan y Senedd bob blwyddyn. Ar ôl ei chymeradwyo, dyrannir cyllid i'r Byrddau Iechyd.

Er mai Llywodraeth Cymru sy'n dyrannu'r arian, GIG Cymru (y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau GIG/Awdurdodau Iechyd Arbennig) sy'n rheoli'r arian. Mae'r Byrddau Iechyd yn penderfynu sut i ddyrannu adnoddau ar draws gwasanaethau, gyda Llywodraeth Cymru yn pennu nodau polisi a blaenoriaethau cyffredinol o ran iechyd (e.e. lleihau amserau aros, gwella mynediad at ofal sylfaenol).

Gall Byrddau Iechyd hefyd dderbyn cefnogaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn os bydd pwysau annisgwyl, megis:

- **Galw cynyddol:** Am y gwasanaethau brys neu yn ystod achosion o ffliw.
- **Arian cyfalaf:** Ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, megis ysbytai newydd neu uwchraddio cyfleusterau.

## Hawliau plant a phroses gyllidebu'r Bwrdd Iechyd Lleol

Mae'r gofyniad bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn alinio'u cyllidebau â CCUHP yn rhan o fframwaith o gyfreithiau a pholisïau yng Nghymru a luniwyd i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys prosesau cyllidebol. Mewn modd tebyg i sefyllfa awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill penodedig (gweler uchod) a'r canllawiau a roddwyd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) (gweler isod), dylai Byrddau Iechyd Lleol ystyried effaith bosibl eu cyllidebau ar blant, ymgysylltu â phlant wrth ymgynghori, a sicrhau bod yr adnoddau a ddyrannwyd yn hybu hawliau plant.

Mae llawer o fyrddau iechyd ledled Cymru eisoes wedi ymrwymo i CCUHP ac i Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwaith. Mae cyllidebu hawliau plant yn elfen bwysig o unrhyw Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

## Deall proses gyllidebu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Yng Nghymru, partneriaethau cydweithredol yw BGCau, a sefydlwyd i wella gwasanaethau cyhoeddus ar y lefel leol. Maent yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n creu mandad y dylai BGCau gydweithio i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau.

Mae BGCau yn dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau brys a chyrff cyhoeddus eraill ynghyd i roi sylw i faterion cymhleth megis anghydraddoldebau iechyd, newid yn yr hinsawdd, a diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, yn wahanol i Fyrddau Iechyd neu awdurdodau lleol, nid yw BGCau yn derbyn cyllideb benodol, uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, daw'r cyllid ar gyfer BGCau a'u gweithgareddau fel arfer trwy ddyraniad, wrth i awdurdod lleol, er enghraifft, neilltuo rhan o'i gyllideb ei hun ar gyfer prosiectau cydweithredol o dan y BGC; neu gallai bwrdd iechyd neilltuo adnoddau ar gyfer mentrau iechyd ar y cyd neu raglenni ataliol a luniwyd i wella llesiant.

Mae gan bob partner ei brosesau a'i flaenoriaethau ariannu ei hun, ac mae BGCau yn cydweithio i alinio'r adnoddau hyn mewn modd cydlynus er mwyn cyflawni amcanion a rennir. Daw'r cyllid ar gyfer gweithgareddau BGC fel arfer o gyllidebau'r sefydliadau partner hyn, yn hytrach na bod yn ddyraniad BGC penodol.

Er nad oes cyllideb BGC benodol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiol grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cyfateb i flaenoriaethau cenedlaethol (e.e. llesiant, tlodi, newid yn yr hinsawdd). Dyma rai enghreifftiau:

- **Cronfa Taclo Tlodi:** Ar gyfer mentrau sy'n rhoi sylw i dlodi trwy addysg, cyflogaeth a iechyd.
- **Cronfa'r Newid yn yr Hinsawdd:** Ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd fel lleihau carbon neu ynni glân.
- **Cyllid Diogelwch Cymunedol:** Ar gyfer ymgyrchoedd diogelwch a lleihau troseddu, sy'n aml yn cynnwys cynghorau a heddlu lleol.

Mae'r grantiau hyn yn cefnogi Cynlluniau Llesiant BGCau ac yn cyfateb i nodau mwy cyffredinol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gall BGCau gyfuno cyllid o sefydliadau partner i gefnogi rhaglenni ar y cyd, gan roi sylw i nifer o nodau llesiant. Dyma rai enghreifftiau:

- **Gwasanaethau iechyd meddwl:** Ariannir y rhain ar y cyd gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a'r heddlu.
- **Ymgysylltu â ieuenctid:** Ariannir hyn gan addysg, llywodraeth leol, a'r trydydd sector.

Ariannir y rhaglenni hyn o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli yn y sefydliadau partner.

# Hawliau Plant a phroses gyllidebu Byrddau Gwasanaethau yhoeddus



Mae'r Canllawiau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn galw am ymgynghori â phlant a rhieni er mwyn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer 'Cynllun Llesiant' strategol 5-mlynedd, ac ymhlyg yn hynny mae'r broses o gynllunio cyllideb. Mae hefyd yn egluro bod rhaid cymryd hawliau plant i ystyriaeth, a chynghorir llunio AEHP yn ogystal.

# Deall proses gyllidebu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Yng Nghymru mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn strwythurau allweddol a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Eu prif ddiben yw integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol, gan sicrhau gwell deilliannau i unigolion, yn enwedig mewn meysydd megis pobl hŷn, anabledd, iechyd meddwl, a gwasanaethau plant.

Yn nodweddiadol nid yw BPRhau yn derbyn eu cyllideb annibynnol eu hunain. Yn hytrach, maent yn tynnu arian o gyllidebau craidd y sefydliadau partner dan sylw, sy'n nodweddiadol yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol (ar gyfer gwasanaethau gofal cymeithasol a chymunedol)
- Byrddau Iechyd (ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd)
- Partneriaid Trydydd Sector a Sector Annibynnol (yn cynnwys elusennau, mentrau cymdeithasol, a darparwyr gofal preifat)

Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn eu cyllideb eu hunain, ac maent yn cyfrannu eu hadnoddau a ddyrannwyd i fentrau ar y cyd fel rhan o fframweithiau megis y Gronfa Gofal Integredig, sef cyllid ar gyfer BPRhau sy'n cefnogi gofal integredig ar draws maes iechyd.

Gall BPRhau gyrchu grantiau penodol ar gyfer meysydd sy'n cael eu targedu, e.e.:

- **Cymorth i Ofalwyr:** Gwella gwasanaethau i ofalwyr nad ydynt yn cael eu talu.
- **Anabledd ac Anableddau Dysgu:** Gwella'r gefnogaeth i bobl â chyflyrau hirdymor.

Mae'r grantiau hyn yn cyfateb i'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran poblogaethau bregus.

Mae BPRhau yn hwyluso cyfuno adnoddau ar draws sefydliadau i wella cydlyniad ac effeithlonrwydd gwasanaethau, a rhoi sylw i fylchau ynddynt. Mae hynny'n cynnwys comisiynu prosiectau ar y cyd, megis gofal yn y gymuned ar gyfer yr henoed neu, i roi enghraifft arall, plant ag anghenion cymhleth.

Mae BPRhau yn derbyn cyllid ar sail cynlluniau rhanbarthol sy'n cyfateb i flaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol. Mae'r cynlluniau'n cynnwys nodau mesuradwy a dyraniadau cyllid manwl ar draws gwasanaethau a mentrau.

Nid yw BPRhau yn rheoli cyllid yn uniongyrchol, ond caiff rheolaeth ariannol ei monitro a'i harchwilio gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau rhanbarthol. Rhaid i'r Byrddau sicrhau defnydd effeithlon o gyllid ac aliniad ag amcanion polisi.

## Hawliau Plant a phroses gyllidebu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu holl swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. (Adran 7 o'r Ddeddf). O ganlyniad, dylen nhw fod yn ystyried yr effaith ar hawliau mewn perthynas â phopeth a wnant, a dylent ymgynghori â phlant a chydgynhyrchu eu hasesiadau a'u cynllunio, eu hadroddiadau, a'u penderfyniadau cyllidebol.

### Casgliad

Dylai'r cysylltiad rhwng strwythurau llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, BGCau a BPRhau sicrhau bod cysylltiadau rhwng dyraniadau cyllideb, rhaglenni a pholisïau yn gwella'r deilliannau i blant. Mae cyfrifoldebau penodol hefyd ar y sefydliadau sy'n cyfrannu at hyn i ymgynghori â phlant a sicrhau eu cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau.

Bydd tryloywder ynghylch hawliau, bwriadau polisi, dyraniadau cyllidebol, a deilliannau o ran gwasanaethau i blant yn cynorthwyo awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'u partneriaid wrth gynllunio ar sail deilliannau a gwneud trefniadau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.



Adran 4:

# CYNNAL DADANSODDIAD CYLLIDEB HAWLIAU PLANT – CANLLAW CAM WRTH GAM

**Mae'r adran hon yn cyflwyno cyrff cyhoeddus i Ddadansoddiad Cyllideb Hawliau Plant (Dadansoddiad CHP) er mwyn helpu i sicrhau bod cyllidebau cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i hawliau plant ac yn eu cyflawni, fel y'u nodir yn CCUHP.**



Mae'n offeryn i asesu a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu dyrannu a'u defnyddio i roi sylw i hawliau plant a chefnogi eu llesiant, yn enwedig ar gyfer plant agored i niwed a rhai sydd wedi'u gwthio i'r cyrion.

Mae'r adran hon yn helpu cyrff cyhoeddus i gysylltu hawliau CCUHP â bwriadau polisi a dyraniadau cyllidebol, ac yna gwerthuso effaith hynny ar y deilliannau i blant.

Isod ceir y camau ar gyfer cynnal Dadansoddiad CHP.

## CAM 1 Pennu'r Fframwaith a Diffinio'r Amcanion

Cyn cychwyn ar y Dadansoddiad CHP, mae'n bwysig pennu cwmpas, amcanion, ac egwyddorion arweiniol y dadansoddiad. Mae'r cam hwnnw'n galw am wneud y canlynol:

- **Diffinio'r cwmpas:** Penderfynu ar ba feysydd penodol o'r gyllideb bydd y ffocws (e.e. addysg, gofal iechyd, amddiffyn plant, gwasanaethau cymdeithasol, etc.).
- **Nodi rhanddeiliaid**: Cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y broses, er enghraifft swyddogion cyrff cyhoeddus, sefydliadau cymdeithas sifil, grwpiau hawliau plant, a'r cyhoedd, gan gynnwys plant (gweler Adran 5, Cyllidebu Cyfranogol).
- **Datblygu dealltwriaeth o CCUHP**: Cyn neidio i'r dwfn a dadansoddi'r gyllideb, mae'n hanfodol deall yr hawliau a'r rhwymedigaethau a geir yn CCUHP.
- **Deall amseriad y gyllideb**: dysgu beth yw amseriad a phroses y gyllideb rydych chi am gael effaith arni.
- **Alinio â CCUHP**: Sicrhau bod y dadansoddiad wedi'i wreiddio yn egwyddorion a mesurau cyffredinol CCUHP, gyda ffocws ar y canlynol:
  - Peidio â gwahaniaethu yn erbyn neb (Erthygl 2)
  - Lles pennaf y plentyn (Erthygl 3)
  - Mesurau cyffredinol gweithredu CCUHP (Erthygl 4)
  - Hawl i oroesi a datblygu (Erthygl 6)
  - Cyfranogiad (Erthygl 12)

## CAM 2 Adolygu'r Gyllideb Gyhoeddus

Y cam nesaf yw deall strwythur y gyllideb a'r elfennau allweddol. Mae hynny'n golygu:

- **Mapio'r gyllideb:** Nodi'r holl wariant sy'n cael effaith ar blant. Mae hynny'n cynnwys gwariant uniongyrchol ar wasanaethau lles plant, addysg, gofal iechyd, amddiffyniad cymdeithasol, a meysydd cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys dyraniadau anuniongyrchol, fel y rhai i leihau tlodi, a datblygu economaidd, trafnidiaeth a seilwaith, a all gael effaith ar blant.
- **Dogfennau cyllideb:** Caffael ac adolygu'r dogfennau cyllideb perthnasol, megis:
  - Datganiad y Gyllideb neu Bapurau'r Gyllideb.
  - Adroddiadau gwariant a Chynlluniau Perfformiad Blynyddol.
  - Adroddiadau cyllideb sectorau (e.e. addysg, iechyd, amddiffyn plant).

## CAM 3 Nodi Meysydd Allweddol o ran Hawliau Plant yn y Gyllideb

Unwaith mae'r gyllideb wedi cael ei mapio, asesu sut mae'n cydweddu â hawliau plant ar draws amrywiol sectorau. Gallai'r meysydd ffocws allweddol gynnwys, er enghraifft: (yn dibynnu ar gyllideb pwy e.e. Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol etc).

- **Iechyd a Maeth (Erthyglau 24 a 27 CCUHP)**. Dyraniad cyllideb ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd i blant (e.e. rhaglenni iechyd mamau a phlant, imiwneiddio, maethiad, gwasanaethau iechyd meddwl i blant).
- **Addysg (Erthyglau 28 a 29 CCUHP).** Dyraniad cyllideb ar gyfer addysg gynradd, uwchradd a thrydyddol, gan gynnwys addysg gynhwysol i blant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, prydau ysgol am ddim, a chefnogaeth addysgol i grwpiau sydd ar y cyrion.
- **Diwylliant a Iaith (Erthyglau 30 a 20 CCUHP)**. Dyraniad cyllideb i sicrhau bod plant yn gallu mwynhau eu diwylliant eu hunain, ymarfer eu crefydd eu hunain, neu ddefnyddio'u hiaith eu hunain (e.e. y Gymraeg) a bod hynny'n cael ei gefnogi os na all plant fyw gyda'u teuluoedd eu hunain (e.e. plant sydd â phrofiad o ofal).
- **Chwarae, Bywyd Diwylliannol a Hamdden (Erthyglau 31 a 29 C CCUHP)**. Dyraniad cyllideb ar gyfer mannau diogel a digonol i chwarae yn yr ardal leol, meysydd chwarae, mannau agored etc., ac mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill; cyfleoedd digonol i gyfranogi mewn bywyd diwylliannol, y celfyddydau, chwaraeon etc.
- **Amddiffyniad Cymdeithasol (Erthyglau 20, 26 a 27 CCUHP)**. Dyraniad Cyllideb ar gyfer budd-daliadau plant, rhaglenni lles cymdeithasol e.e. system plant mewn gofal, trosglwyddiadau arian, a mentrau lliniaru tlodi.
- **Amddiffyn Plant (Erthyglau 19, 34 a 37a CCUHP)**. Cyllideb ar gyfer gwasanaethau sy'n ymdrin â cham-drin plant, ecsbloetio plant, masnachu plant, eu hesgeuluso, a mynediad at gyfiawnder i blant.
- **Dŵr, Glanweithdra a Thai (Erthygl 24)**. Adnoddau a ddyrannir i sicrhau mynediad plant at ddŵr glân, glanweithdra diogel, a thai digonol.
- **Cyfiawnder ac Amddiffyniad Cyfreithiol (Erthyglau 37 a 40)**. Dyraniad cyllideb er mwyn amddiffyn plant sy'n gwrthdaro â'r gyfraith, systemau cyfreithiol sy'n gofalu am blant, a mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol.

## CAM 4 Dadansoddi Cydymffurfiaeth y Gyllideb â Hawliau Plant

Dadansoddi i ba raddau mae'r gyllideb yn hybu ac yn diogelu hawliau plant, gan ddefnyddio'r egwyddorion cyffredinol a'r gofynion cyffredinol i roi hawliau ar waith.

Fel canllaw:

- **Peidio â gwahaniaethu yn erbyn neb (Erthygl 2)**:
  - Ydy'r gyllideb yn ymdrin â hawliau'r plant mwyaf agored i niwed (e.e. plant mewn tlodi, plant ag anableddau, plant o grwpiau lleiafrifol, plant mudol a ffoaduriaid, plant yn y system ofal)?
  - Oes yna ddyraniadau penodol a digonol ar gyfer grwpiau o blant sydd ar y cyrion neu mewn perygl?
  - Ydy'r gyllideb yn ymdrin ag anghysondebau rhywedd?
  - Oes yna ddata wedi'i ddidoli sy'n tystio i beidio â gwahaniaethu yn y dyraniadau cyllidebol?
- **Lles Pennaf y Plentyn (Erthygl 3)**:
  - Ydy hawliau plant yn cael blaenoriaeth mewn penderfyniadau cyllideb? Er enghraifft, oes yna ffocws ar iechyd, diogelwch, addysg a llesiant plant yn y dyraniadau cyllideb?
  - Os oes goblygiadau negyddol i'r gyllideb, pa gamau allai gael eu cymryd i liniaru effaith o'r fath?
- **Mesur Gweithredu Cyffredinol (Erthygl 4)**:
  - Ydy plant yn derbyn mwyafswm o'r adnoddau sydd ar gael? Pa gyfran o'r gwariant cyffredinol sy'n cael ei ddyrannu i blant? Ydy adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg o fewn ac ar draws rhanbarthau, gan sicrhau bod plant mewn ardaloedd gwledig, pellennig neu rai heb ddigon o wasanaethau yn cael mynediad at wasanaethau o safon?
- **Hawl i Fywyd, Goroesi a Datblygu (Erthygl 6):**
  - Ydy'r gyllideb yn dyrannu cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau sy'n sicrhau goroesiad a datblygiad optimwm plant?
  - Ydy'r gyllideb yn dyrannu arian digonol i gefnogi gwahanol gyfnodau datblygiad plant?
  - Ydy gwasanaethau ataliol (e.e. brechiadau, maethiad, addysg plentyndod cynnar, gwasanaethau cymdeithasol) yn cael eu hariannu'n ddigonol i hybu datblygiad cyfannol plant?
- **Cyfranogiad (Erthygl 12):**
  - Ydy barn plant yn cael ei chynnwys yn y penderfyniadau cyllidebol sy'n effeithio arnyn nhw, ac oes pwys dyladwy yn cael ei roi ar eu barn?
  - Ydy barn plant sy'n llai tebygol o gael eu clywed yn cael ei chynnwys, ac oes pwys dyladwy yn cael ei roi arni?
  - Ydy'r corff cyhoeddus yn ymgysylltu â sefydliadau/chynghorau a fforymau plant neu'n cynnal arolygon i sicrhau bod hawliau a barn plant yn cael eu hystyried?

## CAM 5 Asesu Effeithlonrwydd ac Effaith Gwariant

Mae'r cam hwn yn galw am asesu i ba raddau mae'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau sy'n effeithio ar blant neu raglenni yn cael ei wario'n llwyddiannus, ac a yw'r deilliannau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni:

- **Tracio Gwariant:**
  - Tracio a yw cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. A yw'n cyrraedd y poblogaethau a'r sectorau targed a fwriadwyd (e.e. sicrhau bod adnoddau ar gyfer addysg ADY yn wir yn cyrraedd ysgolion a myfyrwyr)?
- **Asesu Effaith:**
  - Gwerthuso effaith dyraniadau cyllideb ar hawliau plant. Er enghraifft:
    - A fu gostyngiad yn lefelau marwoldeb neu dlodi plant ar ôl rhoi mwy o gyllid i iechyd?
    - Ydy cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol wedi gwella yn sgîl dyraniadau addysg ADY uwch?
    - Ydy gwasanaethau amddiffyn plant wedi dangos cynnydd mesuradwy yn y gefnogaeth i blant a gafodd eu cam-drin neu eu hesgeuluso?
- **Atebolrwydd a Monitro:**
  - Oes yna systemau yn eu lle i fonitro sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio? Oes yna dryloywder wrth adrodd am ddeilliannau a'u hasesu?
  - Ydy cymdeithas sifil a phlant yn cael cyfranogi yn y monitro ar weithrediad y gyllideb, yn enwedig mewn meysydd sy'n ymwneud â phlant?

## CAM 6 Darparu Argymhellion ar gyfer Diwygio

Ar sail y dadansoddiad, darparu argymhellion penodol ar gyfer alinio cyllideb y corff cyhoeddus yn well â hawliau plant. Gallai hynny gynnwys:

- **Cynyddu'r Dyraniadau ar gyfer Gweithredu Hawliau Plant:**
  - Cyflwyno cynnig ar gyfer e.e. cyllid ychwanegol mewn meysydd sydd ag adnoddau annigonol, megis gofal iechyd meddwl i blant, rhaglenni amddiffyniad cymdeithasol, neu addysg plentyndod cynnar.
- **Diwygio Rhaglenni a Pholisi:**
  - Argymell gwelliannau i ddyluniad a gweithrediad rhaglenni er mwyn cyrraedd plant sydd ar y cyrion yn well (e.e. plant ag anableddau, plant o leiafrifoedd ethnig, plant sy'n ffoaduriaid).
- **Ailddyrannu Adnoddau:**
  - Awgrymu ailddosbarthu adnoddau i sicrhau bod plant agored i niwed a rhai sydd ar y cyrion yn derbyn eu cyfran deg o wariant cyrff cyhoeddus.
- **Gwella Cyfranogiad:**
  - Dadlau o blaid mecanweithiau cryfach i sicrhau cyfranogiad plant mewn penderfyniadau cyllideb, megis paneli ymgynghorol plant neu ymgynghori rheolaidd â chyrff hawliau plant.

CAM 7

## Addysgu'r Cyhoedd ac Ymgysylltu â Nhw

Yn olaf, dylai canfyddiadau'r dadansoddiad o'r gyllideb gael eu rhannu gyda'r cyhoedd, plant, rhanddeiliaid eraill perthnasol, a llunwyr polisi er mwyn annog tryloywder, meithrin ymwybyddiaeth a dadlau o blaid newid cadarnhaol:

- **Cyhoeddi Adroddiad:**
  - Cyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion y dadansoddiad mewn fformatau hygyrch (e.e. adroddiadau, ffeithluniau, briffiadau).
- **Ymgyrchoedd Addysgu'r Cyhoedd:**
  - Lansio ymgyrchoedd addysgu'r cyhoedd i bwyso am fabwysiadu'r argymhellion a sicrhau bod hawliau plant yn derbyn sylw digonol yng nghyllidebau'r dyfodol.
- **Ymgysylltu:**
  - Gweithio gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr cyrff cyhoeddus, sefydliadau hawliau plant, a rhanddeiliaid eraill i roi'r argymhellion ar waith a gwella prosesau cyllideb i'r dyfodol.

# Casgliad


Mae Dadansoddiad Cyllideb Hawliau Plant yn offeryn hanfodol ar gyfer sicrhau bod cyllidebau cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni hawliau plant, fel mae CCUHP yn gwarantu, ac yn mwyafu defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i wneud hynny. Trwy fabwysiadu Dadansoddiad CHP strwythuredig, cam wrth gam, gall cyrff cyhoeddus asesu aliniad eu cyllidebau â hawliau plant, nodi bylchau, a gwerthuso'r effaith ar ddiogelwch economaidd a chorfforol plant, eu llesiant a'u datblygiad.

Gall y dadansoddiad helpu i ganfod bylchau yn y dyraniad i gefnogi hawliau plant, ac mae'n hybu tryloywder, atebolrwydd, a defnydd effeithiol o adnoddau i gefnogi plant, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ar draws sectorau. Yn y pen draw, mae Dadansoddiad CHP yn annog diwygio er mwyn sicrhau cynnydd yn hawliau plant, gwell cyfranogiad gan blant a'r rhai sy'n eu cynrychioli, ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn dadlau o blaid newid cadarnhaol a sicrhau gwell deilliannau i blant.

Adran 5:

# Cyllidebu Cyfranogol

**Diben cyllidebu cyfranogol yw helpu'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau cyhoeddus i fod yn rhan o benderfynu sut a ble caiff arian ei wario. Mae hynny'n golygu cytuno ar flaenoriaethau ar y cyd, ymchwilio i'r hyn y mae angen ei wneud, cyflwyno cynigion ar gyfer gwariant newydd, pleidleisio neu gytuno mewn ffordd arall ar sut caiff adnoddau eu dosbarthu, tracio a monitro sut caiff y gwaith ei gyflwyno, a beth mae'n ei gyflawni.**



Mae cyllidebu cyfranogol yn darparu mecanwaith i alluogi rhanddeiliaid i fod yn rhan o bennu cyllidebau sy'n cyd-fynd â'u blaenoriaethau a'u pryderon.

Gall cyllidebu cyfranogol ddigwydd ar lawer o wahanol lefelau: ar lefel cyllideb yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd; ar lefel y gyllideb ar gyfer gwasanaeth neu brosiect penodol, neu hyd yn oed wrth benderfynu ar y gyllideb ar gyfer un gweithgaredd.

## Beth yw cyllidebu cyfranogol?

Mae amrywiaeth o gynlluniau cyllidebu cyfranogol, ond mae diffiniad ymarferol defnyddiol yn nodi bod hwn yn arfer sy'n:

> *"fecanwaith (neu'n broses) lle mae'r boblogaeth yn penderfynu ar y penderfyniadau a wneir, neu'n cyfrannu atynt, ynghylch cyfeiriad rhan neu'r cyfan o'r adnoddau cyhoeddus sydd ar gael."* [1]

Datblygodd cyllidebu cyfranogol yn wreiddiol ym Mrasil, ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n eang ar draws y byd. Mae'n cael ei gydnabod fel dull effeithiol o gynnwys pobl leol wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut a ble dylai arian cyrff cyhoeddus gael ei wario. Mae cyllidebu cyfranogol yn cael ei gydnabod fel offeryn pwysig ar gyfer cryfhau democratiaeth, rhannu pŵer, lleihau amddifadedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o wahanol ffyrdd o gyflawni cyllidebu cyfranogol: mae'n broses hyblyg y mae angen ei haddasu i sefyllfa leol.

Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, yn eu Sylw Cyffredinol ar Gyllidebu Cyhoeddus er Gwireddu Hawliau Plant (Erthygl 4 CCUHP), yn rhoi cyfarwyddyd i lywodraethau ynghylch sut mae rheoli gwariant cyhoeddus i blant er mwyn gwireddu hawliau pob plentyn. Un ffocws amlwg yn y canllawiau hyn yw cyfranogiad plant ym mhob cam o'r broses gyllidebu. Dyma mae'r Pwyllgor yn ei ddweud:

> Para 52: *Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn sefydlu hawl pob plentyn i fynegi ei f/barn ei hun yn rhydd ar bob mater sy'n effeithio arno/arni, yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn. Dylai partïon gwladol glywed barn plant yn rheolaidd ar benderfyniadau cyllideb sy'n effeithio arnynt, trwy fecanweithiau sy'n caniatáu cyfranogiad ystyrlon plant ar lefel genedlaethol ac o dan hynny. Dylai cyfranogwyr y mecanweithiau hynny fedru cyfrannu'n ddi-rwystr heb ofn dial yn eu herbyn. Dylai partïon gwladol roi adborth i'r rhai a fu'n cyfranogi. Yn arbennig, dylai partïon gwladol ymgynghori â phlant sy'n cael anhawster i sicrhau eu bod yn cael eu clywed, gan gynnwys plant mewn sefyllfaoedd bregus.*

Mae enghreifftiau o gyllidebu cyfranogol i blant yn digwydd ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae'r Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, Y Ffordd Gywir, yn cydnabod pwysigrwydd grymuso plant a phobl ifanc a'u cefnogi i sicrhau bod eu barn yn ganolog wrth wneud penderfyniadau polisi, ymarfer a rhai cyllidebol.

[1] Global Campaign on Urban Governance, Nairobi Kenya (2004) p.20.

Ar ben hynny, mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn galluogi cyrff cyhoeddus a BGCau i gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac i hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc a'u hymwneud â phenderfyniadau. Mae rhychwant y ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach nag ymwneud â'r cynllun llesiant lleol. Dylai cyrff cyhoeddus ystyried effaith bosibl eu cyllidebau ar blant, ymgysylltu â phlant a'u cynnwys mewn penderfyniadau cyllidebol, a sicrhau bod yr adnoddau a ddyrannir yn hybu hawliau plant. Ymhellach, pwysigrwydd cynnwys pobl yw un o'r 5 ffordd o weithio a geir yn y Ddeddf, sy'n pwysleisio y dylid cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r nodau llesiant. Mae cynnwys plant ym mhenderfyniadau cyllidebol awdurdod cyhoeddus yn enghraifft ardderchog o gyfrannu at y dull yma o weithio.

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cyfleu bod angen strwythurau, systemau ac adnoddau i wreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ystyrlon ar draws unrhyw sefydliad, a dylen nhw alluogi cynifer o blant â phosibl i ymwneud â phob agwedd ar gynllunio, cyflwyno, gwerthuso gwasanaethau a monitro cyllidebau. Wrth gynllunio'u proses cyllidebu cyfranogol, dylai awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth lawn i'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Gall awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gefnogi a chysylltu â rhwydwaith eang o fforymau a chynghorau sy'n cynnwys plant a rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau ysgol, fforymau plant a phobl ifanc a ariannir gan yr awdurdod lleol a'r gymuned, a hefyd rhai sy'n targedu plant mewn amgylchiadau anodd.

## Cyllidebu Cyfranogol – canllaw cam wrth gam

### CAM 1 Cynllunio a pharatoi

Fel yn achos unrhyw weithgaredd lle mae bwriad i gynnwys plant wrth wneud penderfyniadau, mae'n bwysig bod yn eglur o'r cychwyn ynghylch nodau ac amcanion a chwmpas y penderfyniadau. Faint o gyfle bydd plant yn cael i leisio barn? Pwy arall sydd â llais yn y penderfyniadau? Beth mae modd ei drafod/beth na ellir ei newid? Sut bydd plant yn cyfranogi – trwy ymateb i awgrymiadau oedolion neu gynnig eu syniadau eu hunain? Mae'n bwysig cytuno ar atebion i'r cwestiynau hyn yn gynnar, beth bynnag yw lefel neu natur y gyllideb y penderfynir arni.

Mae'r cyfnod cynllunio a pharatoi hefyd yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch y canlynol:

- Egluro pwy sy'n gymwys i gymryd rhan. Ceisio cyrraedd plant amrywiol o ran oed, cefndir, gallu, ac amgylchiadau. Bod yn eglur ynghylch dulliau dethol a pha mor gynrychioliadol yw'r broses, e.e. archwilio a nodi'r grwpiau o blant na fydd eu barn yn cael ei chynrychioli o bosib, a sefydlu dulliau o'u cynnwys.
- Gweithio gyda fforymau ieuenctid lleol sydd eisoes yn bodoli, a hefyd archwilio gwahanol ffyrdd o gynnwys plant, megis digwyddiadau cymunedol, ysgolion, platfformau ar-lein, gwaith gydag elusennau sy'n cefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd etc.
- Gwneud y gyllideb yn hygyrch. Cydnabod a rhoi sylw i rwystrau posibl i gyfranogiad, megis gwahaniaethau iaith, anabledd, neu normau diwylliannol, a sicrhau bod pob cyfathrebu mewn fformat dealladwy i blant. Cynnal sesiynau ar adeg ac mewn lleoliad sy'n briodol i blant.

- Cyfathrebu sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut rhoddir adborth.
- Ystyried trefniadau ymarferol, yn cynnwys staffio, lleoliad, trafnidiaeth, costau a threfniadau diogelu plant neu ddiogelwch.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer y sesiynau.
- Egluro beth gall plant ddisgwyl ei gael o'r profiad. Fan lleiaf, dylai fod yn brofiad difyr i'r plant!
- Cyfleu sut bydd y penderfyniadau a wneir yn cael eu symud ymlaen ac yn derbyn sylw dilynol yn y broses o ddyrannu cyllideb.
- Trefniadau ar gyfer gwerthuso a dysgu.

## CAM 2 Gwneud cyllidebau'n hygyrch a meithrin capasiti

Y ffordd orau o ddechrau unrhyw sesiwn yw meithrin dealltwriaeth plant ac ymarferwyr ynghylch hawliau plant, cyn symud ymlaen at y cysylltiad rhwng hawliau plant a chyllidebu.

Bydd angen amser a chefnogaeth ar blant i ddysgu am y gyllideb a chyllidebu. Gall y rhain fod yn syniadau sy'n codi ofn ar lawer o bobl, ac mae trefniadau cyllidebu awdurdodau lleol wedi mynd yn dechnegol iawn. Ond mae profiad o gyllidebu cyfranogol i blant, lle cyflwynir gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, dealladwy, gan oedolion sy'n hwyluso mewn modd parchus a chefnogol, wedi dangos bod modd datblygu lefel o ddealltwriaeth.

Gellir dileu dirgelwch prosesau cyllidebol a'u cyflwyno mewn modd hygyrch. Mewn gweithdai – mae amrywiol ddulliau creadigol e.e. cwisiau a grwpiau trafod a defnyddio siartiau cylch ac 'arian monopoli' i ddangos sut mae cacen y gyllideb yn cael neu'n gallu cael ei rhannu wedi bod yn ddefnyddiol wrth weithio gyda phlant.

Mae rhai awdurdodau wedi llwyddo i ddefnyddio gweithgareddau sefyllfaoedd ar-lein. Rhoddir gwybodaeth, er enghraifft, am fater neu broblem mae'r cyngor yn ei wynebu, a gofynnir i'r cyfranogwyr ddewis ble bydden nhw am fuddsoddi adnoddau'r cyngor ac oddi wrth beth bydden nhw'n dewis tynnu arian i ffwrdd (o ddewis cyfyngedig o opsiynau). Wedi i'r cyfranogwyr wneud eu dewisiadau, bydd y rhaglen yn dangos ystod newydd o sefyllfaoedd allai godi o ganlyniad, a bydd angen rhannu gwybodaeth am bolisi a'r cyd-destun lleol.

Mae cyllidebu cyfranogol yn aml yn golygu bod angen i weithgorau dreulio amser yn casglu gwybodaeth am y broblem neu'r gwasanaeth dan sylw a gwrando ar farn y rhai mae hynny'n effeithio fwyaf arnyn nhw. Bydd plant am ddeall y ffordd orau o gyflawni'r tasgau hyn a datblygu'r sgiliau angenrheidiol. Efallai bydd angen cefnogaeth arnyn nhw hefyd i ddatblygu sgiliau cyd-drafod a gwneud penderfyniadau, yn dibynnu ar eu profiad blaenorol.

## CAM 3 Ymgynghori

Yn nodweddiadol, mae cyllidebu cyfranogol yn golygu bod plant yn ymgynghori ag eraill neu'n gwneud gwaith ymchwil i ddarganfod beth sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gallai hynny gynnwys deall sut mae mater penodol yn effeithio arnyn nhw, sut maen nhw'n profi gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, a nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwariant cyhoeddus. Ar ben hynny, gallai olygu archwilio eu syniadau ynghylch sut mae dyrannu'r gyllideb sydd ar gael yn effeithiol.

## CAM 4 Dadansoddi a gwneud penderfyniadau

Ar ôl casglu'r wybodaeth, bydd angen digon o amser a chefnogaeth ar y cyfranogwyr i'w dadansoddi a datblygu eu cynigion. Gallai fod yn ddefnyddiol creu rhestr fer o opsiynau i'w gwerthuso ymhellach, gan gynnwys costau manwl, gyda thrafodaeth a chyd-drafod ychwanegol yn dilyn. Os bydd rhai blaenoriaethau yn dal i gystadlu â'i gilydd, gallai pleidleisio helpu i wneud y penderfyniad terfynol.

## CAM 5 Gwneud newidiadau

Yn nodweddiadol, caiff penderfyniadau'r gweithgor eu symud ymlaen gan aelod penodedig o staff. Mae'n hollbwysig cytuno ar y trefniadau ar gyfer camau dilynol yn ystod cyfnodau cychwynnol y broses (gweler CAM 1) a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon ac yn effeithlon. Mae cyllidebu cyfranogol yn galw am 'ewyllys wleidyddol' – parodrwydd i rannu gwybodaeth yn agored a chofleidio syniadau newydd ynghylch sut mae gwneud penderfyniadau gydag eraill. Mae hynny hefyd yn cynnwys dangos ymrwymiad i gyflawni'r cytundebau a wnaed. Gallai fod o gymorth nodi 'hyrwyddwyr' sy'n gyfrifol am ysgogi, dyrannu a dosbarthu arian, mewn ymateb i'r blaenoriaethau a godwyd gan y plant fu'n cyfranogi.

## CAM 6 Gwerthuso ac adborth

Dylid rhoi adborth i'r holl blant a fu'n cyfranogi, yn rhoi gwybod iddyn nhw sut cafodd eu barn ei hystyried a'i chynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylid rhoi gwybod i blant mewn fformat hygyrch am ddatblygiadau ym mhob cam o'r gyllideb. Ar ben hynny, dylid gwerthuso'r broses cyllidebu cyfranogol gyda mewnbwn gan yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys plant, i asesu ei heffeithiolrwydd. Dylid defnyddio'r mewnwelediad a gafwyd o'r gwerthusiad hwn i fireinio a gwella'r broses ar gyfer cylchoedd cyllidebol i'r dyfodol.

CAM 7

## Gwreiddio Cyllidebu Cyfranogol i Blant

Y cam terfynol, yn dilyn proses o ddysgu a gwerthuso, yw gwreiddio cyfranogiad plant mewn cyllidebu cyhoeddus, a hynny trwy ymrwymiad hirdymor i sicrhau adnoddau dynol ac ariannol.

### Nodyn ynghylch amseru

Os yw plant yn wir yn mynd i ddylanwadu ar gynlluniau gwariant corff cyhoeddus, mae'n rhaid clywed eu barn yn gynnar yn y broses gynllunio, fel bod cyfle iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch gwariant newydd. Yng Nghymru, mae'r ymgynghori ynghylch yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau newydd yn nodweddiadol yn digwydd gwta fis neu ddau cyn cyfarfod cyllideb blynyddol y cyngor, a gynhelir fel arfer ym mis Mawrth pryd y cymeradwyir cynnig y blaid sydd mewn grym ar gyfer y gyllideb. Yn ymarferol, cyfyngir ar y rhan fwyaf o wariant awdurdodau lleol gan bwysau sydd eisoes yn bodoli, megis cyflogau, taliadau gwasanaeth, a thargedau cenedlaethol neu ofynion statudol. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae llawer o benderfyniadau pwysig yn dal i'w gwneud ynghylch sut caiff adnoddau eu dyrannu.

## Casgliad

I gloi, os yw cyllidebu cyfranogol i fod yn effeithiol:

- Dylai'r Corff Cyhoeddus (e.e. Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd) ddiffinio rheolau cyllidebu cyfranogol mor eglur â phosibl o'r cychwyn. Mae angen canfod adnoddau nad oes cyfyngiadau arnynt eisoes.
- O ystyried cymhlethdod y broses, ac i wneud y broses yn ystyrlon i blant, mae angen cyfnod arweiniol hir, gyda chyfarfodydd yn cychwyn yn aml hyd at flwyddyn cyn bod angen cymeradwyo'r gyllideb.
- Gall cyfuniad o bobl sydd â gwybodaeth a phrofiad o weithio gyda phlant, yn ogystal â phobl sy'n gwybod sut mae'r broses o bennu cyllideb yn gweithio fod yn amhrisiadwy.
- Rhaid i reolwyr ac ymarferwyr gydnabod gwerth deialog a deall bod cynnwys plant yn gwella'u gallu i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon.
- Dylai rheolwyr ac ymarferwyr ddarparu gwybodaeth hygyrch, ar adegau ac mewn mannau sy'n briodol i blant, a rhoi sylw ystyrlon i farn plant, gan roi adborth bob amser.
- Dylid ystyried cyfansoddiad y grŵp sy'n cyfranogi – sut mae wedi cael ei ddethol, pa mor gynrychioliadol ydyw, sut bydd unigolion yn y grŵp yn cael eu cefnogi, er mwyn sicrhau cynhwysiant, bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael eu clywed ac yn sbarduno gweithredu etc.



## Myfyrdod Terfynol

Er mwyn cynnal hawliau plant yn llwyddiannus o dan CCUHP, dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) – fabwysiadu Cyllidebu Hawliau Plant cadarn a thryloyw. Mae Cyllidebu Hawliau Plant o fudd i gyrff cyhoeddus trwy eu galluogi i amlygu'r cysylltiad rhwng hawliau, bwriadau polisi, dyraniadau cyllidebol a deilliannau i blant.

Mae Dadansoddiad Cyllideb Hawliau Plant strwythuredig yn offeryn pwerus ar gyfer gwerthuso i ba raddau mae adnoddau cyhoeddus wedi'u halinio â hawliau plant, i ganfod bylchau ariannu, ac i sicrhau nad yw polisïau yn rhoi'r mwyaf agored i niwed o dan anfantais. Mae'n gwella tryloywder, yn hybu atebolrwydd, ac yn cefnogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau er mwyn diogelu a hybu hawliau a llesiant plant.

Elfen yr un mor hanfodol yw cyfranogiad ystyrlon plant mewn penderfyniadau polisi a chyllidebol sy'n effeithio arnynt. Os yw cyllidebu cyfranogol i gael effaith, rhaid i brosesau gael eu diffinio'n glir, bod yn gynhwysol, a chaniatáu digon o amser i baratoi a chynnal deialog. Rhaid i leisiau plant – yn enwedig rhai o grwpiau sydd ar y cyrion neu na chlywir ganddynt yn aml – gael eu clywed, eu parchu, a sbarduno gweithredu. Rhaid i ymarferwyr sicrhau bod yr ymgysylltu'n hygyrch ac yn grymuso, gan gydnabod bod cynnwys plant yn arwain at wasanaethau cyhoeddus gwell a mwy ymatebol.

Bydd gwreiddio hawliau plant mewn cyllidebu cyhoeddus yn helpu i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni newid cadarnhaol, parhaol i holl blant Cymru.[2]

[2] Wrth ddrafftio'r adroddiad hwn, hoffai'r awduron gydnabod gwaith cynharach Dr Anne Crowley a gyfrannodd at ysbrydoli cynnydd yng nghyswllt cyllidebu hawliau plant a chyfranogiad plant yng nghyd-destun Cymru.

www.comisiynyddplant.cymru
T: 01792 765600
E: post@complantcymru.org.uk
Facebook: @childcomwales

Llinell gymorth cyngor rhadffôn:
0808 801 1000

**Cyllidebu hawliau plant:**
Canllaw i gyrff cyhoeddus
(ac eraill) yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales